# BRUCE GRIFFITHS yn
# Pori mewn llyfryn a hwylio mewn cwch

BETH YW'R cysylltiad rhwng Hannibal y canibal a Marc y clarc? Yn y cofiant i'r actor o Gymro, Anthony Hopkins, *Too Good to Waste* (1989) gan Quentin Falk, trewais ar y darn hwn:

> 'Gymerwch Chi Sigarét? *has a kind o mysterious Welsh lilt about it which somehow gets a little lost in translation* (Have a Cigarette?). *First produced in 1956, it is one of more than fifteen plays by the distinguished Welsh writer and dramatist Saunders Lewis.* Have a Cigarette? *was chosen as the launch-pad of a newly-formed (if short-lived) national touring company called the Theatre of Wales, organized by Richard Rhys, later Lord Dynevor. Thomas Taig, one of the visiting lecturers at Cardiff College, also professor of drama at Bristol University, was to produce the play. He called Tony to ask him to join the group and play the lead rôle in it. Tony recalls: "The play is set in East Berlin and is about a young man called Mark. He has to make contact with a Western diplomat and then shoot him with his cigarette case. It was, I believe, based on a true-life incident. I mustn't make fun of the play because I gather it's rather highly regarded. What happens is that as Mark is about to pull out his cigarette-case, a crucifix which his wife has left in it falls out on the floor and he's suddenly converted from Communism. Very Graham Greene. I can tell you it was very hard to act him."*

Cyfeddyf nad oedd ganddo fawr o glem ar actio. Anwastad oedd y cynulleidfaoedd,

> *'On one night, in Carmarthen, there were probably more people on the stage than in the auditorium.'*

Diolch yn fawr, Tony: pum marc (!!) allan o ddeg am gofio manylion y plot; nid yn Nwyrain Berlin y lleolir y ddrama; nid diplomydd mo'r gŵr sydd i'w saethu; llaswyr, nid croes, sy'n syrthio o'r blwch sigarets; ni chaiff Marc dröedigaeth, gan nad yw'n credu mewn comiwnyddiaeth pa'r un bynnag.

* * * *

YN YSTOD hindda Medi bûm yn fy nghwch Gwennol ar hyd afon Afon a Hafren (ni chaf roi *yr* o flaen eu henwau gan y Golygydd). Cefais ddigon o bethau at fy nant. Mae siop lyfrau ardderchog (Chaucer's Head) yn Stratford (*Upon* Avon, nid *on* Avon!). Yna bûm trwy dref fechan Bidford on Avon, lle bu Shakespeare mewn cystadleuaeth yfed mewn tafarn leol yn ôl yr hanes.

Bu'r dref yn eiddo i Lywelyn Fawr: fe'i cafodd yn rhodd gan y Brenin John pan briododd ei ferch Siwan. Yr oedd yn werth £43.0.4 y flwyddyn mewn trethi. Bernais mai doeth a fyddai peidio â cheisio'r trethi dyledus ers wyth ganrif bron!

Yna heibio yn ysig i Dead Man's Ait lle claddwyd cannoedd o Gymry a laddwyd mewn brwydr yn 1265 rhwng Simon de Montfort ar y naill law, a'r Tywysog Edward a Iarll Caerloyw ar y llall. Mae siop lyfrau dda (Bookworm) yn Evesham.

Yna dan bont y Brenin John i Tewkesbury; yn yr abaty enfawr gellir prynu copi o'r *Magna Carta*, y Freinlen Fawr, y mae un cymal ohoni yn cofnodi addewid John i ryddhau 'plant Llywelyn' (heb nodi unrhyw deitl iddo), sef Dafydd a Gruffydd, ei wyrion ei hun, a ddaliai'n wystlon.

Y tro hwn ni fûm i Gaerloyw, lle gwelir bedd a cherfddelw bardd Cymraeg o deulu brenhinol Normandi a Lloegr: Robert Curthose, Iarll Normandi a mab Gwilym Orchfygwr. Bu'n garcharor yng nghastell Caerdydd am flynyddoedd maith, a dysgodd Gymraeg yn ddigon da i farddoni yn yr iaith.

Yn ôl *Pretenders* Jeremy Potter (1986) cyfansoddodd Robert alargerdd yn Gymraeg, *'one line of which runs in translation, "Woe to him that is not old enough to die"'.* Ym mha le, tybed, y ceid testun y gerdd hon? Yno hefyd y gorwedd y brenin anffodus hwnnw, Edward yr Ail.

Yna, ymlaen i Upton on Severn — lle bychan swynol a siop lyfrau dda ynddo — ac i Gaerwrangon. Yn y gadeirlan gwelir bedd a cherfddelw liwgar y dyn drwg hwnnw, y Brenin John; ac yma hefyd mae'r 'anoeth byd', sef bedd Arthur. Na! nid Arthur Frenin, ond y Tywysog Arthur, mab hynaf Harri'r Seithfed.

Ac os oes gennych ysbien-glas, gellwch syllu ar ffenestr liw (ddiweddar) sy'n darlunio priodas Llywelyn ap Gruffudd ag Eleonore, merch Simon de Montfort.

Dangoswyd y gadeirlan inni gan ystlyswr caredig a fusai'n feddyg gyda HMS Indefatigable yn Llanfair-pwll! Bu'n anodd dod o hyd i siop lyfrau ail-law, ynghudd uwch ben siop ddillad mewn stryd gefn. Diflanasai'r lleill a gofiwn.

Y tro diwethaf canmolais siop Palace Books ym Mangor: ysywaeth, ddoe ddiwethaf yn y byd, gwelais iddi gau ei drysau am byth.

Os tueddwch fel fi i weld Prydain fel rhwydwaith o siopau llyfrau a lleoedd bwyta, a pheth wmbreth o bethau eraill da i ddim rhyngddynt, byddwch yn croesawu argraffiad newydd o'r arweinlyfr ecsentrig hwnnw, *Drif's Guide to Second-hand Bookshops.* Honna'r awdur (Drif bellach, nid Driff) iddo ymweld â phob siop a restrir, ar gefn ei feic. Mae'n fympwyol ac yn hallt ei sylwadau yn aml, ond dyma lyfr anhepgor i lyfrbryf. (Anfoner at Drif Field Guides, Omnibus Workspace, 41 North Road, London N6 9DP; pris £9.99; Rhif ISBN: 0 9510005 3 5).

Hefyd cafwyd argraffiad newydd o arweinlyfr *Skoob* i siopau llyfrau — (anfoner at — 11a-15 Sicilian Avenue, Southampton Row, London WC1A 2QH; pris £6.99; Rhif ISBN: 1871438 02 0).


# PATRICK BREEN

## BRYN MAWR, DOLGELLAU, GWYNEDD LL40 1TD

### Ffôn: (0341) 423 312

*Y Bibl Cyssegr-lan* . . . 1620. Fersiwn ddiwygiedig o Feibl 1588 gan yr Esgob Richard Parry a Dr John Davies. Copi wedi ei argraffu mewn llythyren ddu. Wedi ei ail-rwymo yn 1788. Arwyddwyd gan John Williams, Rheithor Llandeveiliog. Ddim yn hollol gyflawn ond mewn cyflwr da............Ymholer am y pris.

*The Welsh House:* Iorwerth C. Peate. 1944, 240t.............. £25.00

*Rambles and Walking Tours in the Wye Valley:* Hugh E. Page. 1938, 144t. Clawr meddal.............. £3.00

*The Romance of Wales:* A. G. Bradley. 1929, 269t.............. £17.00

*In Praise of North Wales:* A. G. Bradley. 1925, 269t.............. £17.00

*Cantref Meirionnydd:* Robert Prys Morris. 1890, 612t.............. £25.00

*The Mountains of Snowdonia:* Hubert R. C. Carr and George A. Lister. 1948, 312t. Llawer o ddarluniau a llungopi o fap Speed o Sir Gaernarfon, 1610.............. £20.00

*Snowdonia:* F. J. North, Bruce Campbell and Richard Scott. 1949, 469t.............. £25.00

*Through North Wales on Horseback:* Hope Hewett. 1937.............. £16.00

*A History of Wales:* Sir J. E. Lloyd. 1948, 2 gyfrol.............. £50.00

*The Old Churches of Snowdonia:* Harold Hughes and Herbert L. North. 1924, 285t.............. £30.00

*The Old Cottages of Snowdonia:* Harold Hughes and Herber L. North. 1908, 75t. Argraffiad cyntaf cyfyngedig... £30.00

*The Council in the Marches of Wales:* Caroline A. J. Skeel. 1904, 308t.............. £50.00

*History of Merioneth:* E. G. Bowen and C. A. Gresham. 1967, 298t. Cyfrol 1 yw'r unig un sydd wedi ymddangos hyd yn hyn.............. £55.00

*Carey Thomas of Bryn Mawr:* Edith Finch. 1947, 342t. Hanes Deon cyntaf Coleg Bryn Mawr ym Mhennsylfania gyda llawer o wybodaeth o ddiddordeb i'r Crynwyr a hanes y Coleg a agorwyd yn 1885 ar dir yn eiddo i'r Crynwr Rowland Ellis, Bryn Mawr, Dolgellau.............. £30.00

CLUDIANT YN YCHWANEGOL